

# **COUNTRYSIDE ALLIANCE**



**Maniffesto 2016 y  
Gynghrair Cefn Gwlad ar  
gyfer Etholiadau Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru**

# Cyfathrebu Digidol

Mae twf digidol yn allweddol i ddatblygu economi Cymru, ac felly mae angen polisiau arloesol i fodloni'r galw cynyddol am gysylltedd ac i sicrhau bod anghenion cymunedau gwledig yn cael eu diwallu.

Mae mynediad at gysylltedd band eang cyflym a dibynadwy yn amrywio'n fawr ledled Cymru, ond mae'n hollbwysig i'n bywydau cynyddol economaidd ac ar-lein. Dangosodd adroddiad diweddar gan Ofcom, sef y rheoleiddiwr telathrebu, er y bu cynnydd mewn cwmpas a chyflymder band eang yng Nghymru, fod cyfran y safleoedd sy'n elwa ar y cysylltiadau hyn yn llai nag yn y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

Mae mynediad at y rhyngwrwd trwy'r rhwydwaith symudol yn cynyddu 66% y flwyddyn, ac eto nid yw signal 3G yn cyrraedd 33% o safleoedd yng Nghymru. Yn ogystal â sicrhau bod gennym ni'r seilwaith a'r cwmpas i fodloni'r galw hwn, mae angen i ni hefyd addysgu defnyddwyr a busnesau am fuddion cysylltedd cyflym.

## Mae'r Gynghair Cefn Gwlad yn galw am y canlynol:

- Byddai mesurau i annog mwy o gystadleuaeth ar gyfer pecynnau band eang gwell yn y farchnad band eang ddomestig a busnes nid yn unig yn annog pobl i'w prynu, ond hefyd o fudd i economi Cymru.
- Dylai'r Cynulliad hybu a chefnogi technolegau amgen, fel band eang lloeren a symudol, sy'n gallu darparu cysylltedd i ardaloedd gwledig mwy anghysbell.
- Mae'n rhaid i'r Cynulliad ddiwygio'r gyfraith cynllunio sy'n ymwneud â seilwaith symudol er mwyn ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i adeiladau safleoedd newydd, uwchraddio seilwaith presennol a chaniatáu i seilwaith newydd gael ei adeiladu sy'n gweddu orau i'r ardal leol.

# Ffeithiau Allweddol

Nid oes signal band eang cyflym yn

**50%** o'r eiddo yng Nghymru wledig

Mae ardaloedd lle na cheir unrhyw signal band eang a ffôn symudol, neu signal rhannol yn unig, yn fwy cyffredin yng Nghymru wledig

Mae **12%** o'n GDP yn cael ei gynhyrchu trwy'r rhyngwrwd, sy'n sylweddol uwch na gwledydd eraill

# Bwyd a Ffermio

Mae'r diwydiant cynhyrchu bwyd yng Nghymru yn ymfalchïo mewn rhai o'r safonau uchaf yn y byd o ran hwsmonaeth a lles anifeiliaid. Mae ein cynhyrchwyr bwyd a diod yn darparu cynhyrchion o ansawdd sydd â lle haeddiannol ym marchnad allforio Cymru. Fodd bynnag, dylai'r cyhoedd fod yn prynu mwy o fwyd a diod o Gymru. Er bod defnyddwyr yn awyddus i brynu cynnyrch lleol, cânt eu temptio'n aml i brynu dewisiadau eraill rhatach ac mae angen gwneud mwy i annog y farchnad ddomestig.

Mae'r sector amaethyddol yn sail i lawer o'n diwydiant twristiaeth yng Nghymru, boed hynny trwy ddarparu tir a dŵr er mwynhad, bwyd i'w fwyta neu lety er mwyn archwilio ein tirweddau unigryw. Mae'n rhaid i ni gefnogi ein ffermwyr a dathlu eu cyfraniad at dirwedd ac economi Cymru. Byddai hyn nid yn unig o fudd i'r diwydiant, ond yn cynyddu niferoedd ymwelwyr ac yn ysgogi'r economi wledig ehangach hefyd.

Mae addysgu pobl, yn enwedig pobl ifanc, am fwyd a ffermio a rheoli cefn gwlad yn hollbwysig. Mae'n syndod faint o bobl nad ydynt yn deall arferion gwaith ciper neu ffermio a'u rôl allweddol wrth gynnal cefn gwlad a reolir yn dda.

## Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn galw am y canlynol:

- Bod cyrff cyhoeddus yn cael archwiliad blynyddol o ran faint o fwyd a diod o Gymru a brynant.
- Bod dulliau o farchnata a hyrwyddo cynhyrchion bwyd arbenigol, fel helgig a chaws, yn cyd-fynd yn agos â Strategaeth Dwristiaeth Llywodraeth Cymru, a bod y cynhyrchion hyn yn cael eu hyrwyddo ar-lein trwy fap cynnyrch rhyngweithiol.
- Bod ffermio a chynhyrchu bwyd yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi'n well er mwyn dangos y safonau lles o safon fyd-eang a ddilynrir gan ffermwyr Cymru ac i addysgu'r farchnad.

## Ffeithiau Allweddol



# Gwasanaethau Gwledig

Nid yw'r gwasanaethau, y nwyddau a'r amwynderau mwyaf sylfaenol ar gael i lawer o breswylwyr trefi a phentrefi gwledig ledled Cymru. Mae'n rhaid iddynt deithio'n bellach ar gyfer gofal iechyd, gorsafoedd petrol, gwasanaethau ariannol a siopau; a thalu mwy am hanfodion sylfaenol fel tanwydd ar gyfer gwresogi a chludiant.

Mae banciau'r stryd fawr yn cau mewn trefi gwledig ledled Cymru, ond nid yw pob un ohonynt yn darparu gwasanaethau bancio busnes trwy gownteri Swyddfa'r Post, sy'n golygu bod bancio pob dydd ag arian parod yn anodd.

Mae'r ffaith bod gwasanaethau ysbyty'n cael eu darparu'n ganolog yn golygu bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig dan anfantais ddifrifol, yn enwedig mewn sefyllfaoedd argyfyngus. O ystyried hyn ynghyd â phrinder meddygon teulu yng Nghymru wledig, mae angen polisiâu arloesol sy'n galluogi cymunedau i gael mynediad at ofal iechyd ble bynnag maen nhw'n byw.


Mae troseddu'n fater allweddol i gymunedau gwledig, ac eto mae'r cymunedau hynny'n teimlo bod plismona'n canolbwyntio ar eu cyndogion trefol yn aml. Mae preswylwyr a busnesau yng nghefn gwlad yn talu'r un faint, a mwy yn aml, fesul pen y boblogaeth am blismona ac maen nhw'n haeddu'r un driniaeth â'u cymheiriaid trefol.

## Mae'r Gynghrai Cefn Gwlad yn galw am y canlynol:

- Bod yr holl briif fanciau'n cynnig gwasanaethau bancio busnes trwy Swyddfa'r Post.
- Bod tele-feddygaeth yn cael ei hyrwyddo a phobl yn cael eu haddysgu i'w defnyddio, er mwyn ysgafnhau'r baich ar feddygfeydd gwledig a lleihau'r amser aros i weld meddyg teulu.
- Bod fformiwlâu cyllido'n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod cymunedau gwledig yn cael yr un lefel o gyllid â'u cymheiriaid trefol.

## Ffeithiau Allweddol

Caeodd **28** cangen fanc yng Nghymru yn 2014, ac roedd 10 o'r rhain yn "fanc olaf y dref"



# Cymunedau Gwledig

Mae cymunedau gwledig yn rhan allweddol o wead cefn gwlad Cymru. Maen nhw'n gartref ac yn weithle i fwy na miliwn o bobl.

Mae'r diffyg tai sydd ar gael i'w prynu neu eu rhentu yn gorfodi pobl leol i adael y cymunedau lle maen nhw'n gweithio a lle y cawsant eu magu'n aml. O ganlyniad i natur cymunedau gwledig, nid yw adeiladu tai newydd bob amser yn briodol, ac felly mae'n siomedig bod y cynllun cymorth i brynu ar gyfer y rhai sy'n prynu am y tro cyntaf yn berthnasol i dai newydd yn unig. Mae hyn yn gorfodi'r rhai hynny sy'n dymuno aros yn eu tref neu bentref genedigol i symud i rywle arall oherwydd dim ond tai sydd eisoes yn bodoli sydd ar gael ar y farchnad eiddo.

O ystyried y ffaith bod y boblogaeth yn heneiddio, mae diffyg mynediad at wasanaethau, boed hynny o ganlyniad i drafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig neu ddiffyg band eang, yn gallu arwain at fwy o ynysu gwledig.

Oherwydd eu natur anghysbell, mae cymunedau gwledig yn aml yn darged ar gyfer troseddau hefyd, gan gynnwys tipio anghyfreithlon a throseddau amgylcheddol eraill. Mae hyn yn gwneud lle'n llai atyniadol i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae cau safleoedd ailgylchu, neu gyfyngu ar eu horiau agor, o ganlyniad i doriadau awdurdod lleol wedi cael effaith negyddol ar waredu gwastraff yn gyfrifol.

## Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn galw am y canlynol:

- Bod pob polisi'n cael ei brawfesur o safbwynt anghenion cefn gwlad er mwyn atal cymunedau gwledig rhag cael eu hynysu mwy.
- Bod y cynllun cymorth i brynu'n cael ei ymestyn i dai presennol ac addasiadau yn hytrach na thai newydd yn unig, mewn ardaloedd gwledig
- Bod plismona'n cael ei gyllido'n deg er mwyn sicrhau bod y ffactor teneurwydd poblogaeth yn cael ei gydnabod, a fydd yn sicrhau bod yr heddlu'n gallu mynd i'r afael â throseddau mewn cymunedau mwy anghysbell.

# Ffeithiau Allweddol

Mae **1** o bob **3** o bobl yng Nghymru yn byw mewn ardal wledig

Mae prisiau tai yng Nghymru wledig 19% yn uwch nag mewn ardaloedd trefol

Pris cyfartalog tŷ trefol  
**£145,237**

Pris cyfartalog tŷ gwledig  
**£172,517**

Ceir mwy na **31,000** o achosion tipio anghyfreithlon yng Nghymru bob blwyddyn, ac amcangyfrifir eu bod yn costio oddeutu

**£2 filiwn**  
i drethdalwyr i'w glanhau.

# Rheoli Cefn Gwlad

Rydym ni'n disgwyl llawer iawn gan ein hadnoddau naturiol. Mae ein cefn gwlad yn sail i'n sector twristiaeth, mae'n fan ar gyfer hamdden, mae'n bantri a, llawn cyn bwysiced, mae'n amgylchedd gwaith. Mae mynediad i'r awyr agored yn bwysig iawn i iechyd a lles y genedl. Fodd bynnag, mae angen rheoli'r mynediad hwnnw er mwyn diogelu cynefinoedd bregus ac ystyried y ffaith bod cefn gwlad yn weithle hefyd.

Mae'r dirwedd wledig wedi cael ei ffurfio gan ddydd dros ganrifoedd lawer ac mae angen i'n cefn gwlad a'n bywyd gwyllt gael eu rheoli'n barhaus. Nod rheoli bywyd gwyllt yw cynnal iechyd a phoblogaethau cytbwys anifeiliaid gwyllt ar lefelau y gellir eu cynnal gan eu hamgylchedd lleol, ac sy'n dderbyniol i ffermwyr, tîrfeddianwyr a chymbwysedd cyffredinol yr holl fathau eraill o fywyd gwyllt. Mae diffyg rheolaeth yn bygwth poblogaethau bregus, bioamrywiaeth, cadwraeth gynefinoedd a chynhyrchu bwyd.

Dylid mynd ati i reoli bywyd gwyllt ar sail tystiolaeth gadarn ac ymagwedd gyson ac egwyddorol ar draws rhywogaethau. Fe'i cyflawnir orau trwy gyfuniad o ddulliau a ddefnyddir yn unol ag arfer gorau gan ffermwyr, ciperiaid, tîrfeddianwyr, naturiaethwyr a helwyr, sydd oll â'u buddiannau gwahanol.

## Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn galw am y canlynol:

- Ymagwedd synhwyrol tuag at wella mynediad i dir a dŵr sy'n parchu'r amgylchedd, gweithgareddau busnes presennol a chynefinoedd.
- Bod y llywodraeth a'i hasiantaethau'n ymgysylltu'n briodol â'r rhai hynny sy'n ymwneud â rheoli cefn gwlad, gyda pholisi cadarn wedi'i seilio ar dystiolaeth.
- Mwy o gysylltiad â'r awyr agored trwy addysg er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o sut a pham mae cefn gwlad yn cael ei reoli.

# Ffeithiau Allweddol

Amcangyfrifir bod twristiaeth genweirio dŵr croyw ar ei phen ei hun yn werth mwy na £100M y flwyddyn i economi Cymru.

Gellir cyrraedd

**360,000** 

o hectarau o gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig ar

droed ynghyd â **4,700** o filltiroedd o hawliau tramwy cyhoeddus.

Mae saethu'n werth

**£75 MILIWN**

i economi Cymru ac mae'n darparu'r hyn sy'n cyfateb i 2,400 o swyddi amser llawn

# COUNTRYSIDE ALLIANCE

The voice of the countryside

Rachel Evans

Countryside Alliance Wales

**T:** 01550 777997

**E:** [Rachel-evans@countryside-alliance.org](mailto:Rachel-evans@countryside-alliance.org)

**W:** [countryside-alliance.org.uk](http://countryside-alliance.org.uk)

Designed and printed by Incorporate Design Ltd,  
Trident Court, 1 Oakcroft Road, Chessington, KT9 1BD  
Promoted by Rachel Evans on behalf of the Countryside  
Alliance Wales, both of 1 Spring Mews, Tinworth Street,  
London, SE11 5AN.

